

Rhan F – Ar ôl datgan y canlyniadau

Etholiadau Ilywodraeth leol yng
Nghymru a Lloegr: canllawiau i
Swyddogion Canlyniadau

Rhagfyr 2016 (diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2018)

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	Disgrifiad o'r newid
Hydref 2017	Diweddarwyd er mwyn cynnwys manylion pellach am ble y dylid dychwelyd datganiadau ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post (paragraff 2.7).
Gorffennaf 2018	Diweddarwyd er mwyn ystyried Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018

Cynnwys

1	Storio a gwaredu dogfennau	1
	Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon.....	3
	Hysbysiadau etholiad a gyhoeddir ar eich gwefan.....	5
2	Gweithgarwch ar ôl yr etholiad	6
	Rhoi hysbysiad o'r canlyniadau	6
	Datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post.....	9
	Casglu data ac adborth	10
	Rhoi cyfrif am yr etholiadau	10
	Talu credydwyd	11
	Talu ffioedd i staff	11
	Dychwelyd cyfarpar	11
	Gwariant etholiadol ymgeiswyr.....	11
	Datganiadau ymgeiswyr	11
	Ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol ar gais	13
3	Herio canlyniadau etholiad	14
	Deisebau etholiadol.....	14
	Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol ac ar ba seiliau?.....	14
	Pwy fydd yr atebydd?	14
	Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deisebau	14
	Penderfyniad anghymhwysu barnwrol	15
4	Adolygu gweithdrefnau etholiad	16
	Yr adolygiad	16
5	Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	18

1 Storio a gwaredu dogfennau

1.1 Dylech gynnal polisi cadw dogfennau sy'n nodi'r cyfnod y byddwch yn cadw pob dogfen etholiad a'ch rheswm dros wneud hynny. Dylech sicrhau nad ydych yn cadw dogfennau am fwy o amser na'r hyn a nodir yn eich polisi cadw dogfennau a'u bod yn cael eu dinistrio'n ddiogel ar yr adeg briodol.



Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am storio data personol a chadw dogfennau, gan gynnwys yr hyn y dylid ei gynnwys mewn polisi cadw dogfennau.

1.2 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol am gadw'r dogfennau etholiadol a restrir ym mharagraffau **1.7, 1.8 a 1.10**¹ ac y mae'n rhaid iddo eu cadw am flwyddyn.

1.3 Os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, rhaid i chi anfon y dogfennau ato'n ddiogel a bydd blwyddyn un yn dechrau o'r dyddiad y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu derbyn². Dylech gysylltu ag ef ar gam cynnar er mwyn rhoi trefniadau ar waith i anfon y dogfennau rhagnodedig ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan. Dylech sicrhau bod yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac y rhoddir cyfrif amdani wrth iddi gael ei hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

1.4 Ym mhob achos, a phob tro, dylai pob paced a chynhwysyn sy'n cynnwys dogfennau etholiadol gael eu storio'n ddiogel fel na all neb ymyrryd â hwy.

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol³

Mewn etholiadau maerol awdurdodau cyfunol, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer pob cyngor etholaethol yn cadw'r dogfennau etholiadol sy'n berthnasol i'w ardal.

Refferenda cynllunio cymdogaeth⁴

Mewn refferenda cynllunio cymdogaeth, rhaid i chi anfon y dogfennau at Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol. Pan fydd ardal y refferendwm yn croesi ffiniau awdurdodau lleol, Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol y cofrestrir y nifer fwyaf o etholwyr yn ei ran ef o ardal y refferendwm.

Cyfuno⁵

Pan gyfunir dau ddigwyddiad pleidleisio neu fwy, rhaid anfon y dogfennau etholiadol at swyddog cofrestru'r awdurdod lleol. Os bydd yr ardal etholiadol

yn cynnwys mwy nag un awdurdod lleol, swyddog cofrestru'r awdurdod lleol y cofrestrir y nifer fwyaf o etholwyr yn ei ran ef o'r ardal.

1.5 Dylech gynnal trywydd archwilio clir wrth becynnu'r dogfennau gan y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd dod o hyd i ddogfennau'n hawdd os bydd unrhyw un yn dymuno archwilio'r dogfennau cyhoeddus. Dylai'r system becynnu a labelu a ddefnyddiwch ddarparu dull storio diogel a chefnogi proses adfer amserol.

1.6 Gellir sicrhau llwybr archwilio clir a phroses dryloyw drwy wneud y canlynol:

- Cynhyrchu labeli clir ar gyfer pob paced. Rhaid i chi selio'r holl ddogfennaeth berthnasol mewn pacedi ar wahân a⁶marcio pob paced gyda disgrifiad o'i gynnwys, dyddiad y refferendwm ac enw'r ardal etholiadol berthnasol y mae'n cyfeirio ati.
 - At hynny, dylai'r labeli nodi pa mor hir y bydd angen cadw'r paced a phryd y bydd angen ei dministrio (oni chyfarwyddir fel arall drwy orchymyn llys).
 - Dylai'r labeli ar gyfer dogfennau y gall y cyhoedd eu gweld a'r labeli ar gyfer dogfennau na all y cyhoedd eu gweld fod yn wahanol. Fel gofyniad sylfaenol, dylai'r pacedi sy'n cynnwys dogfennau na all y cyhoedd eu gweld nodi'r ffaith hon.
- Sicrhau eich bod wedi ystyried y gwaith o becynnu'r dogfennau wrth gynllunio eich proses dilysu a chyfrif.
- Ymdrin â chyfarwyddiadau pacio fel rhan o'ch hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ac wrth hyfforddi goruchwylwyr pleidleisiau post a chyfrif. Dylai darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig helpu hefyd i leihau'r risg y caiff dogfennau eu pacio'n anghywir. Mae [templed o ganllaw graffigol ar ddeunyddiau pecynnu ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio](#) hefyd ar gael, y gallech ei addasu a'i roi i staff gorsafoedd pleidleisio.
- Creu rhestr o'r holl ddogfennau i'w hanfon. Dylech gadw cofnod o'r holl ddeunyddiau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol a sicrhau y rhoddir cyfrif am yr holl eitemau ac y cânt eu dosbarthu'n ddiogel yn unol â gofynion diogelu data. Mae paragraffau **1.7**, **1.8** a **1.10** yn darparu rhestrau o'r dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon. Dylech hefyd wneud y canlynol:
 - cofnodi nifer y parseli rydych wedi eu hanfon
 - cofnodi manylion y swyddog cofrestru perthnasol y cawsant eu hanfon ato/ati
 - cael derbynneb gan y swyddog cofrestru perthnasol sy'n nodi bod y parseli wedi cael eu derbyn yn ddiogel



Ceir rhagor o fanylion ar y diffiniad o 'ardal etholiadol berthnasol' yn [Rhan A – Rolau a chyfrifoldebau](#).

Refferenda cynllunio cymdogaeth

Mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth rhaid marcio dogfennau pleidleisiau post ag enw ardal y gymdogaeth⁷.

Cyfuno

Pan gyfunir dau ddigwyddiad pleidleisio neu fwy, rhaid i chi gymeradwyo pob paced a nodi disgrifiad o'r ardal y maent yn ymwneud â hi⁸. Dylai'r label hefyd nodi'n glir pa ddigwyddiad pleidleisio y mae'r paced yn ymwneud ag ef. Os yw'n ymwneud â phob digwyddiad pleidleisio (fel y copïau o gofrestri wedi'u marcio), dylai restru'r holl ddigwyddiadau pleidleisio.

Y dogfennau y mae dyletswydd arnoch i'w hanfon

1.7 Rhaid i chi selio'r dogfennau etholiadol a restrir isod ac, ar ôl cwblhau cyfrif y papurau pleidleisio, rhaid i chi eu hanfon at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, os nad chi yw'r person hwnnw hefyd, fel y nodir uchod.⁹ Os felly, bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod ganddo ddull o gofnodi dyddiad derbyn y dogfennau, fel ei fod yn gwybod pryd i ddinistrio'r rhai a anfonwyd ymlaen.

1.8 O'r gorsafoedd pleidleisio:¹⁰

- y paced sy'n cynnwys:
 - y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd
 - y rhestr o bleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
 - y datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
 - y rhestr o bleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
 - y datganiadau yn ymwneud â phleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
 - y rhestr o bobl yr anfonir papurau pleidleisio atynt ar ôl i wall clercol gael ei gywiro neu o ganlyniad i benderfyniad ar apêl i'r llys
- copïau wedi eu marcio o'r gofrestr etholwyr, y rhestr wedi ei marcio o ddirprwyon ac unrhyw hysbysiadau copïau wedi'u marcio o ganlyniad i gywiro gwall clercol neu benderfyniad ar apêl i'r llys
- y pagedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y gorsafoedd pleidleisio wedi'u cwblhau

- tystysgrifau cyflogaeth y rhai ar ddyletswydd ar y diwrnod pleidleisio

1.9 O'r prosesau o ddsbarthu ac agor pleidleisiau post:¹¹

- copïau wedi'u marcio o restr y pleidleiswyr post a rhestr y pleidleiswyr post drwy ddirprwy
- y pacedi sy'n cynnwys rhestrau rhifau cyfatebol y pleidleisiau post wedi'u cwblhau
- y pacedi o ddatganiadau pleidleisiau post a dderbyniwyd fel rhai dilys
- y pacedi o bleidleisiau post a wrthodwyd
- y pacedi o amlenni papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd
- y rhestrau o bapurau pleidleisio drwy'r post a ganslwyd, a gollwyd ac a ddifethwyd
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd a'r dogfennau ategol
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post a gollwyd a oedd yn cynnwys unrhyw ran o'r pecyn pleidleisio drwy'r post nas collwyd ac a ddychwelwyd atoch cyn i chi anfon un arall yn ei le
- y paced o bapurau pleidleisio drwy'r post, datganiadau ac amlenni a ganslwyd
- y pacedi o bapurau pleidleisio drwy'r post nas defnyddiwyd
- pecynnau pleidleisio drwy'r post nas agorwyd a dderbyniwyd ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio neu a ddychwelwyd fel rhai nas dosbarthwyd (gellir eu hanfon ar ddyddiad arall yn nes ymlaen)

1.10 Rhaid i chi hefyd anfon y datganiad ynglŷn â'r papurau pleidleisio drwy'r post a'r rhestr o bleidleisiau post a fethodd y gwiriadau dynodyddion at y Swyddog Cofrestru Etholiadol, ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon y dogfennau etholiadol uchod¹². Ar yr un pryd dylech hefyd anfon eich cofnod o unrhyw achosion lle rydych yn amau bod trosedd wedi'i chyflawni o bosibl, er mwyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael gwybod ym mha achosion na ddylai anfon hysbysiad o wrthod dynodydd pleidlais bost.



I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhestrau amrywiol sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post, gweler [Rhan D: Pleidleisio absennol](#).

1.11 O'r cyfrif:¹³

- storio papurau pleidleisio ar wahân fel:
 - papurau pleidleisio a gyfrifwyd
 - papurau pleidleisio a wrthodwyd

- papurau pleidleisio nas defnyddiwyd (rhai cyffredin a rhai a gyflwynwyd) a phapurau pleidleisio a ddifethwyd (a osodir gyda'i gilydd)
 - papurau pleidleisio a gyflwynwyd a gafodd eu defnyddio
- cyfrifon y papurau pleidleisio, canlyniad dilysu cyfrifon y papurau pleidleisio a'r datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd

1.12 Mae [canllawiau cadw ac archwilio](#), er mwyn helpu gyda'r gwaith o drin y deunyddiau yn gywir, ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

1.13 Dylech sicrhau bod gennych brosesau ar waith i adfer data a'u dinistrio'n ddiogel ar yr adeg briodol, yn unol â chyfraith etholiadol a'ch polisi cadw dogfennau.

Cyfuno

Rhaid i'r deunyddiau ar gyfer pob digwyddiad pleidleisio, gan gynnwys papurau pleidleisio a gyfrifwyd ac a wrthodwyd a'r holl ddeunyddiau cyfrif eraill, gael eu pecynnu ar wahân¹⁴.

Hysbysiadau etholiad a gyhoeddir ar eich gwefan

1.14 Bydd angen i chi ystyried a yw'n briodol neu'n angenrheidiol i'r hysbysiadau etholiad gwahanol barhau i gael eu cyhoeddi ar eich gwefan ar ôl i gyfnod deiseb yr etholiad ddod i ben. Lle mae gan bob hysbysiad ddiben penodol, h.y. nodi pwy fydd yn ymgeisydd yn yr etholiad, unwaith y bydd yr etholiad drosodd, a bod y cyfle i gwestiynu'r etholiad hwnnw wedi darford, ni fydd ganddynt unrhyw ddiben pellach mwyach. Felly, dylech naill ai ddileu hysbysiadau o'r fath a gyhoeddwyd ar eich gwefan, neu ddileu'r data personol sydd ynddynt, pan fydd dyddiad cau deiseb yr etholiad hwnnw wedi mynd heibio.

1.15 Mae deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu cadw data personol am fwy o amser os caiff y data eu prosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd yn unig, neu at ddibenion gwyddonol, hanesyddol neu ystadegol ac yn ddarostyngedig i weithredu mesurau diogelu priodol. Ar gyfer canlyniadau etholiad, er enghraifft, dylech gadw'r rhain ar eich gwefan gan eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd ac at ddibenion hanesyddol ac ystadegol.

2 Gweithgarwch ar ôl yr etholiad

Rhoi hysbysiad o'r canlyniadau

2.1 Rhaid i chi roi hysbysiad cyhoeddus o enw pob ymgeisydd a etholwyd a chyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd dros bob ymgeisydd (p'un a gaiff ei ethol ai peidio), ynghyd â nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y datganiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd.¹⁵ Os yw'r ymgeisydd wedi defnyddio ei enw a ddefnyddir yn gyffredin i sefyll etholiad, dylech ddefnyddio ei enw llawn a'r enw a ddefnyddir yn gyffredin yn yr hysbysiad.

2.2 Rhaid i chi hefyd hysbysu Swyddog Priodol y cyngor, sef y prif weithredwr o bosibl neu ryw uwch swyddog arall, o enw pob ymgeisydd a etholwyd.¹⁶



Etholiadau cyngorau plwyf a chymuned

Mewn etholiadau ar gyfer cyngorau plwyf yn Lloegr, rhaid i chi hysbysu Swyddog Priodol y rhanbarth y lleolir y plwyf ynddo o enw pob ymgeisydd a etholwyd. Mewn etholiadau ar gyfer cyngorau cymuned yng Nghymru, rhaid i chi hysbysu Swyddog Priodol y sir neu'r fwrdeistref sirol y lleolir y gymuned ynddi o enw pob ymgeisydd a etholwyd. Rhaid i chi hefyd hysbysu Swyddog Priodol y plwyf neu'r cyngor cymuned¹⁷. Os nad oes Swyddog Priodol ar gyfer y cyngor plwyf neu gymuned, dylech hysbysu cadeirydd y cyngor plwyf neu gymuned.

Etholiadau maerol awdurdodau lleol

Rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad

Rhaid i chi roi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad a hysbysu Swyddog Priodol y cyngor o ganlyniad yr etholiad. Rhaid i chi roi hysbysiad o'r canlynol:¹⁸

- enw'r ymgeisydd llwyddiannus
- cyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf a roddwyd i bob ymgeisydd
- nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn yr etholiad wedi'u rhannu yn rhesymau dros eu gwrthod, ac
- os cafodd pleidleisiau ail ffafriaeth eu cyfrif:
 - cyfanswm y pleidleisiau ail ffafriaeth a roddwyd i bob un o'r ymgeiswyr sy'n weddill yn yr etholiad ar ôl cyfrif y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf, a
 - nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd at ddibenion y broses o gyfrif y pleidleisiau ail ffafriaeth ar y sail eu bod heb eu marcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd ynghylch y bleidlais ail ffafriaeth

Dychwelyd ernesau

Mewn etholiad maerol, rhaid i'r ernes o £500 a gyflwynwyd gan neu ar ran ymgeisydd etholaethol gael ei dychwelyd os, ar ôl gorffen cyfrif y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf (gan gynnwys unrhyw ailgyfrif), y gwelir bod yr ymgeisydd wedi ennill mwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys a enillwyd gan bob ymgeisydd yn yr etholiad. Os gwelir bod yr ymgeisydd wedi cael nifer o bleidleisiau a oedd yn hafal i 5% o gyfanswm y pleidleisiau a fwrwyd neu'n llai na hynny, rhaid peidio â dychwelyd yr ernes.¹⁹

Os bodlonir y trothwy, rhaid i'r ernes gael ei dychwelyd i'r person a'i gwnaeth²⁰.

Rhaid dychwelyd yr ernesau y mae'n rhaid eu dychwelyd erbyn y diwrnod gwaith nesaf ar ôl datgan canlyniad yr etholiad, fan bellaf²¹. Byddai'r terfyn amser hwn yn cael ei fodloni pe baech yn postio siec erbyn y diwrnod gwaith nesaf fan bellaf ar ôl datgan canlyniad yr etholiad.

Ernesau a fforfedwyd

Bydd yr ernes a gyflwynwyd gan neu ar ran ymgeisydd yn cael ei fforffedu i'r awdurdod lleol, os gwelir nad yw'r ymgeisydd, ar ôl gorffen cyfrif y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys (gan gynnwys unrhyw broses ailgyfrif) wedi ennill mwy na 5% o gyfanswm y pleidleisiau ffafriaeth gyntaf dilys a enillwyd gan bob ymgeisydd yn yr etholiad²².

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Pan gewch eich awdurdodi i wneud hynny gan y Swyddog Canlyniadau Awdurdodau Cyfunol (SCAC), rhaid i chi lunio'r datganiad terfynol o gyfansymiau lleol ar gyfer eich ardal a rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r canlynol:²³

- cynnwys y datganiad dilysu
- cynnwys y datganiad wrth gwblhau'r broses gyfrif gyntaf
- cynnwys y datganiad wrth gwblhau'r ail broses gyfrif (os oedd angen ail gyfrif)

Er mwyn cael manylion am yr hyn y mae'n rhaid i'r datganiadau hyn eu cynnwys, gweler [Rhan E: Dilysu a chyfrif](#).

Mae'r SCAC yn gyfrifol am roi hysbysiad o'r canlyniad ar gyfer ardal yr awdurdod cyfunol a dychwelyd yr ernesau. Ceir arweiniad ar dychwelyd ernesau yn ein canllawiau ar gyfer SCACau '[Cyflawni prosesau allweddol](#)'.

Refferenda Maerol

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i chi hysbysu Swyddog Priodol y cyngor o ganlyniad y refferendwm maerol. Rhaid i chi hefyd roi hysbysiad cyhoeddus o ganlyniad y refferendwm, nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, cyfanswm y

pleidleisiau a fwriwyd dros bob ateb a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd wedi'u rhannu yn rhesymau unigol dros wrthod²⁴.

Refferenda cynllunio cymdogaeth

Pan na fydd y refferendwm yn croesi ffiniau awdurdodau lleol

Ar ôl datgan y canlyniad, mae'n ofynnol i chi yn ôl y gyfraith i hysbysu Swyddog Priodol y cyngor o ganlyniad y refferendwm. Rhaid i chi hefyd roi hysbysiad cyhoeddus o ganlyniad y refferendwm, nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd dros bob ateb a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd wedi'u rhannu yn rhesymau unigol dros wrthod²⁵.

Pan fydd y refferendwm yn croesi ffiniau awdurdodau lleol

Fel Swyddog Cyfrif, mae'n ofynnol i chi roi hysbysiad cyhoeddus o'ch cyfansymiau lleol pan gewch eich awdurdodi i wneud hynny gan y Prif Swyddog Cyfrif²⁶.

Y Prif Swyddog Cyfrif fydd yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad cyffredinol. Rhaid iddo hefyd hysbysu Swyddog Priodol pob cyngor o ganlyniad y refferendwm. Rhaid iddynt hefyd roi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniad, nifer y papurau pleidleisio a gyfrifwyd, cyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd dros bob ateb a nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd wedi'u rhannu yn rhesymau unigol dros wrthod²⁷.

2.3 Ym mhob achos, dylech sicrhau bod yr hysbysiadau rydych yn gyfrifol amdanynt ar gael i bawb sydd â diddordeb cyn gynted â phosibl, a bydd hyn yn cynnwys eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol.



Er mwyn gallu cyflawni'r hyn a nodwyd yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwybod am y canlyniadau mewn ffordd glir ac amserol.

Er mwyn dangos bod modd i chi gyflawni'r hyn a nodwyd, bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i gyfleu'r canlyniadau i pleidleiswyr.

Datganiad o ran papurau pleidleisio drwy'r post

2.4 Rhaid i chi gwblhau datganiad ar gyfer papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer pob ardal etholiadol²⁸.

2.5 Mae'r dogfennau hyn yn hanfodol i gyfrif am bleidleisiau post a sicrhau y gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt. Dylai'r datganiadau fod yn rhan o'r trefniadau sydd ar waith gennych i gynnal trywydd archwilio clir o brosesau pleidleisio drwy'r post a chyfrif pleidleisiau post. Dylech gwblhau'r datganiadau'n gywir gan ddefnyddio'r ffigurau a gofnodwyd wrth ddsbarthu, derbyn, agor a dilysu pleidleisiau post.

Cyfuno

Hyd yn oed lle y cafodd y broses o ddsbarthu pleidleisiau post ei chyfuno, mae'n ofynnol o hyd i chi baratoi datganiad ynglŷn â phapurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer y ddau ddigwyddiad pleidleisio²⁹.



Ceir rhagor o fanylion am gadw cofnodion wrth weinyddu'r broses pleidleisio drwy'r post yn [Rhan D - Pleidleisio absennol](#). Mae'r Comisiwn wedi llunio [datganiad templed o ran papurau pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiad](#), y dylid ei ddefnyddio. Dylai'r nodiadau canllaw ategol eich helpu i gwblhau hwn.

2.6 Rhaid i chi hefyd roi copi o'r datganiad wedi'i gwblhau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i'r Comisiwn³⁰. Ni ddylai'r datganiad gael ei ddarparu cyn y degfed diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pleidleisio, ond rhaid iddo gyrraedd erbyn y pymthegfed diwrnod gwaith ar ôl y diwrnod pleidleisio fan bellat³¹. Mae Swyddfa'r Cabinet yn cyflwyno ffurflenni ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, a dylai datganiadau gael eu hanfon i elections@cabinetoffice.gov.uk gan ddefnyddio teitl pwnc '[authority name] – Form K return for the Secretary of State'. Darperir manylion am sut i ddarparu'r wybodaeth hon i'r Comisiwn cyn yr etholiadau a drefnwyd mewn Bwletin EA gan y Comisiwn ar adeg y bleidlais honno.

Casglu data ac adborth

2.7 Mewn etholiadau a drefnwyd, gofynnir i chi anfon gwybodaeth a data i'r Comisiwn mewn perthynas â'r etholiadau.

2.8 Bydd ffurflenni ar gyfer casglu gwybodaeth a data mewn etholiadau a drefnwyd, a nodiadau canllaw ategol ar gyfer eu cwblhau, yn ogystal â ffurflen adborth y Comisiwn, ar gael ar [wefan y Comisiwn](#).

Rhoi cyfrif am yr etholiadau

2.9 Telir costau cynnal etholiad lleol gan yr awdurdod lleol³². Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ar gyfer rhoi cyfrif am yr etholiadau.



Etholiadau cyngor plwyf a chymuned

Mewn etholiad cyngor plwyf neu gymuned, telir costau cynnal yr etholiad gan y prif gyngor ardal³³. Fodd bynnag, gall y prif gyngor ardal ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor plwyf neu gymuned ad-dalu unrhyw gostau yr eir iddynt. Fel y nodir yn [Rhan B: Cynllunio a threfnu](#), bydd felly angen i chi gysylltu â'r cyngor plwyf neu gymuned ar gam cynnar ynghylch costau rhedeg etholiad, er mwyn sicrhau bod y gyllideb sydd ei hangen ar gael.

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, telir costau cynnal yr etholiad gan yr awdurdod cyfunol³⁴.

Talu credydwyr

2.10 Dylech gadw derbynebau cyn cyfnod yr etholiadau a thrwy gydol cyfnod yr etholiadau gyfer pob gwasanaeth/gwaith a ddarparwyd, a thalu pob credydwr cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiadau.

Talu ffioedd i staff

Treth incwm

2.11 O dan reolau treth rhaid cwblhau rhestr wirio dechreuwr safonol, a gyhoeddir ar yr adeg penodi. Dim ond unwaith y mae'n rhaid ei chwblhau yn hytrach na'i hadolygu bob blwyddyn. Bydd angen i chi roi ffurflen P60 i'r cyflogai ar ddiwedd y flwyddyn dreth.

Gwybodaeth amser real CThEM

2.12 Bydd pob taliad etholiad a wneir yn ddarostyngedig i system taliadau treth gwybodaeth amser real CThEM. Dylech sicrhau eich bod yn cysylltu ag adrannau cyllid ac adnoddau dynol eich awdurdod lleol cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau y gallwch gydymffurfio â'r rheolau treth ar gyfer pob un o'ch cyflogeion, gan gynnwys unrhyw staff dros dro a staff contract tymor byr. Ceir canllawiau pellach gan [CThEM](#).

Cofrestru'n awtomatig mewn pensiwn yn y gweithle

2.13 Rhaid i bob cyflogwr sydd â staff sy'n gweithio yn y DU gydymffurfio â'r gofynion o ran cofrestru'n awtomatig. Ceir canllawiau pellach gan [y Rheoleiddiwr Pensiynau](#).

Dychwelyd cyfarpar

2.14 Dylech wneud trefniadau i dychwelyd unrhyw gyfarpar, fel y bythau pleidleisio, i'w man storio.

Gwariant etholiadol ymgeiswyr

Datganiadau ymgeiswyr

2.15 Rhaid i bob asiant etholiad gyflwyno ffurflen gwariant ymgeisydd i Swyddog Priodol y cyngor, ynghyd ag anfonebau a derbynebau perthnasol, o fewn 35 diwrnod calendr i ddatgan canlyniad yr etholiad (oni fydd diwrnod olaf

y cyfnod ar benwythnos neu ŵyl y banc, ac os felly bydd y diwrnod olaf yn symud i'r diwrnod gwaith nesaf).³⁵

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, y swyddog priodol fydd y SCAC³⁶.

2.16 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ymgeiswyr a'u hasiantiaid gyflwyno datganiadau yn cadarnhau bod ffurflenni gwariant etholiad yr ymgeisydd yn gyflawn ac yn gywir. Rhaid i ddatganiad yr asiant etholiad gael ei anfon ar yr un pryd â'r ffurflen. Rhaid i ddatganiad yr ymgeisydd gael ei gyflwyno o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl i'r asiant etholiad gyflwyno'r ffurflen. Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd allan o'r DU pan gyflwynir y ffurflen i chi, rhaid iddo wneud y datganiad o fewn 14 diwrnod calendr i ddychwelyd i'r DU (oni fydd diwrnod olaf y cyfnod ar benwythnos neu ŵyl y banc, ac os felly bydd y diwrnod olaf yn symud i'r diwrnod gwaith nesaf) a'i gyflwyno i chi cyn gynted â phosibl.³⁷ Er mwyn sicrhau llwybr archwilio clir, dylai'r Swyddog Priodol gadw cofnod o pryd y derbynnir y dogfennau hyn.

2.17 Rhaid i'r Swyddog Priodol gadw copi o bob ffurflen gwariant etholiad a datganiad, ac unrhyw ddogfennau atodol, am gyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau gyda'r dyddiad y derbyniwyd y ffurflen ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, sicrhau bod copïau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio heb godi ffi. Gall unrhyw un hefyd ofyn am gopïau o'r ffurflenni a'r datganiadau atodol, unrhyw ddogfennau atodol, y mae'n rhaid eu darparu os telir ffi o 20c y dudalen. Rhaid dileu cyfeiriadau unigolion sydd wedi gwneud rhoddion i ymgeiswyr o bob copi i'w archwilio a phob copi a ddarperir ar gais. Ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd, os bydd yr ymgeisydd neu'r asiant etholiad perthnasol yn gofyn amdanynt, rhaid iddynt gael eu dychwelyd i'r ymgeisydd. Fel arall, caiff y ffurflenni a'r dogfennau ategol eu dinistrio.³⁸



Mae'r Comisiwn wedi llunio ffurflenni a chanllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid ar [wariant a rhoddion](#) y gallwch eu rhoi i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu galluogi i fodloni eu gofynion adrodd.



Etholiadau cynghorau plwyf a chymuned³⁹

Mewn etholiadau cynghorau plwyf a chymuned rhaid i ymgeiswyr, o fewn 28 diwrnod calendr i ddiwrnod yr etholiad (oni fydd diwrnod olaf y cyfnod ar benwythnos neu ŵyl y banc, ac os felly bydd y diwrnod olaf yn symud i'r diwrnod gwaith nesaf), gyflwyno eu ffurflenni gwariant etholiad, ynghyd â datganiad o wariant a wnaed yr ymgeisydd, i Swyddog Priodol y cyngor. Nid oes angen datganiad asiant. Rydym hefyd wedi llunio nodyn cyfarwyddyd ar gyfer etholiadau cynghorau plwyf a chymuned ynghyd â'r [ffurflen a'r datganiad gwariant i ymgeiswyr](#).

Rhaid i'r ffurflenni ar gyfer yr etholiadau hyn gael eu cadw am gyfnod o 12 mis ar ôl eu derbyn. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid i'r Swyddog Priodol, os gwneir cais am hynny, eu dychwelyd i'r ymgeisydd, neu gall eu dinistrio.

2.18 Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi [canllawiau i Swyddogion Priodol i'w helpu i ddelio ag unrhyw ffurflenni gwariant ymgeiswyr sy'n weddill](#).

Ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol ar gais

2.19 Mae deddfwriaeth yn gosod terfynau gwariant a gofynion adrodd ar ymgyrchoedd ymgeiswyr, ac yn rhoi'r swyddogaeth o fonitro cydymffurfiaeth â'r rheolau ar wariant etholiadol ymgeiswyr a rhoddion i ymgeiswyr i'r Comisiwn Etholiadol.

2.20 Os gofynnir iddynt wneud hynny, rhaid i Swyddogion Priodol anfon copïau o ffurflenni gwariant etholiad ymgeiswyr i'r Comisiwn. Rhaid i gopïau o'r ffurflenni a anfonwyd i'r Comisiwn gynnwys yr holl ddogfennaeth ategol, gan gynnwys datganiadau⁴⁰.

2.21 Gall y Comisiwn hefyd ofyn i chi ddarparu copïau o anfonebau a derbynebau ar gais:

- ffigurau etholwyr ar gyfer pob ward a ddefnyddiwyd i gyfrifo terfyn gwariant yr ymgeiswyr
- y terfyn gwariant i ymgeiswyr a roddwyd i ymgeiswyr, os yw hynny'n gymwys
- rhestr o'r holl ymgeiswyr a safodd etholiad, gan gynnwys eu plaid (os oes un) a ph'un a fuont yn llwyddiannus
- cadarnhad ynglŷn â phwy sydd wedi methu ag anfon ffurflen, wedi anfon ffurflen anghyflawn, neu wedi anfon ffurflen yn hwyr a beth mae'r Swyddog Priodol eisoes wedi'i wneud ynglŷn ag achosion o'r fath
- cyfeiriadau asiantiaid etholiadol ar gyfer unrhyw ymgeiswyr sydd wedi methu ag anfon ffurflenni

Etholiadau maerol awdurdodau lleol⁴¹

Mewn etholiad maerol awdurdod lleol rhaid i'r Swyddog Priodol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn ffurflen gwariant etholiad neu ddatganiad ymgeisydd, anfon copi o unrhyw ffurflenni neu ddatganiadau i'r Comisiwn. Hefyd, rhaid i'r Swyddog Priodol anfon copïau o unrhyw ddogfennau atodol i'r Comisiwn os gwneir cais am hynny.

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol⁴²

Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol rhaid i'r SCAC, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn ffurflen gwariant etholiad neu ddatganiad ymgeisydd, anfon copi o unrhyw ffurflenni neu ddatganiadau i'r Comisiwn. Hefyd, rhaid iddo anfon copïau o unrhyw ddogfennau atodol i'r Comisiwn os gwneir cais am hynny. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn y [Canllawiau i SCACau - Rhoi prosesau allweddol ar waith](#).

3 Herio canlyniadau etholiad

Deisebau etholiadol

3.1 Gellir defnyddio deisebau etholiadol i herio canlyniad etholiadau.

Pwy all gyflwyno deiseb etholiadol ac ar ba seiliau?

3.2 Gall deiseb etholiadol gael ei chyflwyno gan:⁴³

- rywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- bedwar neu fwy o bobl a bleidleisiodd fel etholwyr yn yr etholiad neu yr oedd ganddynt hawl i bleidleisio yn yr etholiad, heblaw am etholwyr a gofrestrwyd yn ddiennw

3.3 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb etholiad llywodraeth leol yw:⁴⁴

- nad oedd yr unigolyn y codwyd amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i iawn ethol
- bod yr unigolyn y codwyd amheuaeth ynghylch ei ethol wedi'i anghymhwysu ar adeg yr etholiad
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd arferion llwgr neu anghyfreithlon neu ar y seiliau a nodir yn Adrannau 164 a 165 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)

Pwy fydd yr atebydd?

3.4 The person whose election is questioned will most probably be made a respondent to the petition. If the petition relates to the conduct of the election, you may also be a respondent to the petition.

Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno deisebau

3.5 Fel arfer, rhaid cyflwyno deiseb mewn etholiad llywodraeth leol o fewn 21 diwrnod calendr ar ôl y diwrnod y cynhaliwyd yr etholiad⁴⁵. Gellir caniatáu rhagor o amser o dan amgylchiadau penodol.

3.6 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried cyflwyno deiseb etholiadol i geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun. Ar gyfer unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â deisebau etholiadol a'r broses o gyflwyno deisebau, gan gynnwys cadarnhad ynglŷn â'r dyddiadau cau, dylech gysylltu â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 0207 947 6877

Penderfyniad anghymhwysu barnwrol

3.7 Gall unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod cynghorydd wedi cael ei anghymhwysu rhag bod yn gynghorydd nawr, neu unrhyw bryd ers ei ethol.⁴⁶

Etholiadau maerol awdurdodau lleol ac awdurdodau cyfunol⁴⁷

Gall unrhyw un wneud cais i'r Uchel Lys am ddatganiad bod maer awdurdod lleol neu faer awdurdod cyfunol wedi cael ei anghymhwysu rhag bod yn faer nawr neu unrhyw bryd ers ei ethol.

3.8 Dylid cynghori unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais am ddatganiad anghymhwysu barnwrol geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun.

4 Adolygu gweithdrefnau etholiad

4.1 Dylech gynnal gwerthusiad trylwyr o'r holl brosesau a amlinellir yn eich cynllun prosiect, gan geisio adborth gan randdeiliaid priodol, a llunio dogfen ar y gwersi a ddysgwyd a gaiff ei defnyddio i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

4.2 Mae'r Comisiwn wedi darparu, fel rhan o'r [templed ar gyfer cynllun prosiect](#), rai amcanion enghreifftiol ac adnoddau a awgrymir a fydd yn eich galluogi i fesur i ba raddau y mae trefn cynnal yr etholiadau wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r Comisiwn hefyd wedi darparu cynllun gwerthuso fel rhan o dempled y cynllun prosiect er mwyn eich helpu gyda'r broses adolygu.



Er mwyn cyflawni'r hyn a nodir yn [safon perfformiad 1](#), bydd angen i chi werthuso'r ffordd y cynlluniwyd ar gyfer digwyddiadau pleidleisio blaenorol ac y'u cynhaliwyd a nodi gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddarau'r cynlluniau yn ôl yr angen.

Er mwyn dangos bod modd cyflawni'r hyn a nodir bydd angen i chi roi dogfennaeth gynllunio ar waith sy'n adlewyrchu gwersi a ddysgwyd.

Yr adolygiad

4.3 Dylai'r adolygiad gwmpasu pob agwedd ar yr etholiadau. Dylai eich cynllun prosiect gael ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer yr adolygiad, a dylai pob proses y cynlluniwyd ar ei chyfer ac a gyflawnwyd gael ei hadolygu.

4.4 Rhan allweddol o'r adolygiad fydd ystyried y nodau a'r amcanion a nodwyd yn eich cynllun prosiect a mesur eich perfformiad yn eu herbyn.

4.5 Dylech dalu sylw arbennig i adolygu'r canlynol:

- eich gwaith cynllunio prosiect
- p'un a oeddech yn gallu sicrhau digon o adnoddau
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, beth weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella wrth weithio gyda hwy
- sut y cafodd contractwyr eu rheoli ac a wnaethant gyflawni gwaith yn unol â'r fanyleb ofynnol
- y cyfarpar a'r deunydd swyddfa a ddefnyddiwyd
- recriwtio a hyfforddi staff
- addasrwydd y lleoliadau a ddefnyddiwyd
- y gwaith o reoli enwebiadau, gorsafoedd pleidleisio, y broses pleidleisio absennol, a'r broses dilysu a chyfrif
- y gwaith o brosesu ac ymdrin ag ymholiadau
- unrhyw faterion sy'n effeithio ar ddiogelwch/uniondeb yr etholiad

4.6 Fel rhan o'r adolygiad dylech geisio adborth gan randdeiliaid priodol.

4.7 Dylech geisio adborth gan y canlynol:

- eich staff
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, y Swyddog hwnnw.
- etholwyr
- ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol
- sefydliadau lleol o bobl anabl, pobl hŷn a grwpiau ethnig lleiafrifol, a swyddogion mynediad y cyngor

Etholiadau maerol awdurdodau cyfunol

Yn ogystal â'r uchod, dylech sicrhau eich bod yn ceisio adborth gan y SCAC ac yn adolygu'r hyn a weithiodd yn dda a beth y gellid ei wella ar gyfer y dyfodol.

4.8 Er mwyn cael adborth gan eich staff, er enghraifft, dylech ystyried gwahodd nifer ohonynt, gan gynnwys staff gorsafoedd pleidleisio, i ddod i gael trafodaeth er mwyn ymdrin â phob agwedd ar y broses sy'n ymwneud â gorsafoedd pleidleisio, o'r sesiynau hyfforddi a briffio hyd at ddelio â sefyllfaoedd anodd ar y diwrnod pleidleisio. Gallech hefyd ystyried unrhyw adborth a ddarparwyd mewn adroddiadau a gyflwynwyd gan Swyddogion Llywyddu ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio.

4.9 Ar ôl i chi adolygu pob agwedd ar yr etholiadau a cheisio adborth gan randdeiliad priodol dylech lunio dogfen yn nodi'r gwersi a ddysgwyd. Dylai'r ddogfen honno gynnwys dadansoddiad o ba arferion fu'n llwyddiannus a ble arall y gellid eu defnyddio, beth fydddech chi'n ei wneud eto neu'n wahanol, ac argymhellion allweddol. Dylai'r adroddiad ar y gwersi a ddysgwyd gael ei ddefnyddio wedyn i lywio'r cynllun prosiect a'r gofrestr risg ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

5 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

5.1 Ar ôl yr etholiadau efallai y cewch geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. O dan y Ddeddf hon, nid awdurdod cyhoeddus yw Swyddogion Canlyniadau na Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac, fel y cyfryw, maent wedi'u heithrio rhag y gofynion datgelu a osodir ganddi.

5.2 Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, dylai Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ar yr amod bod y wybodaeth hon eisoes yn eiddo i'r cyhoedd, neu ar yr amod nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol. Enghraifft o ddata nad yw'n bersonol fyddai data ystadegol yn dangos cyfanswm nifer yr etholwyr a gofrestrwyd yn eich ardal neu nifer y pleidleiswyr post.

¹ Rheol 52 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 52 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 47 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 62 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 43 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 43 Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 45 Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012

² Rheol 54 Atodlen 2 Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006 (Rheolau Prif Ardaloedd 2006), Rheol 54 Atodlen 2 Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006 (Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006), Rheol 59 Atodlen 1 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) Cymru a Lloegr 2007 (Rheolau Etholiadau Maerol 2007), rheol 64 Atodlen 1 Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017 (Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017), rheol 45 Atodlen 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012 (Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012), rheol 45 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 (Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008), rheol 47 Atodlen 3 Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012 (Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012)

³ Rheol 62(3) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017

⁴ Rheol 2(3) Rheolau Refferendwm Cynllunio Cymdogaeth 2012

⁵ Rheol 52(2) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 52(3) Rheolau Prif Ardaloedd (Cyfuno) 2006, Rheol 52(2) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheolau 52(3) Rheolau Plwyfi a Chymunedau (Cyfuno) 2006, Rheol 57(3) Rheolau Etholiadau Maerol (Cyfuno) 2007, Rheol 62(3) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol (Cyfuno) 2017

⁶ Rheol 51 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 51 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 57 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 44 Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012, rheol 42 Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 42 Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 61 Rheolau Awdurdodau Maerol Cyfunol 2017

⁷ Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012, Atodlen 3 Rheolau 65 and 66

⁸ Rheol 45(1)(e) Atodlen 3 Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006, rheol 45(1)(e) Atodlen 3 Rheol Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006

-
- ⁹ Rheol 52 Atodlen 2 Rheolau Prif Ardaloedd 2006, Rheol 52 Atodlen 2 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, Rheol 57 Atodlen 2 Rheolau Etholiadau Maerol 2007, Rheol 62 Atodlen 2 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017
- ¹⁰ Rheol 52(1) Rheolau Prif Ardaloedd a2006, rheol 52(1) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006, rheol 57(1) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 62 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 45(1) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 45(1) Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru)2008, rheol 45 Rheolau Refferendam Cynllunio Cymdogaeth 2012
- ¹¹ Rheoliad 91(1)(a), Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr)2001 (Rheoliadau 2001)
- ¹² Rheoliad 91(1)(b), (3A) a (3B) Rheoliadau 2007
- ¹³ Rheol 52(1)(a) Rheol Prif Ardaloedd a2006, rheol 52(1)(a) Rheolau Plwyfia Chymunedau 2006, rheol 57(1)(a) Rheolau Etholiadau Maerol 2007, rheol 62(a) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017, rheol 45(1)(a) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, rheol 45(1)(a) Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008, rheol 45(a) Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012
- ¹⁴ Rheol 43(2) Atodlen 3 Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006, rheol 43(2) Atodlen 3 Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006, Rheol 45(2) Atodlen 3 Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017, rheol 45(2) Atodlen 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007, rheol 35(2) Atodlen 5 Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012, rheol 36(2) Atodlen 5 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012
- ¹⁵ Rheol 50(1)(c) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 50(1)(c) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006
- ¹⁶ Rheol 50(1)(b) Rheolau Prif Ardaloedd 2006, rheol 50(1)(b) Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006
- ¹⁷ Rheol 50(1)(b), Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006
- ¹⁸ Rheol 54(2), Rheolau Etholiadau Maerol 2007
- ¹⁹ Rheol 55(1) a (5) Rheolau Etholiadau Maerol 2007
- ²⁰ Rheol 55(1), Rheolau Etholiadau Maerol 2007
- ²¹ Rheol 55(2) Rheolau Etholiadau Maerol 2007
- ²² Rheol 55(5) Rheolau Etholiadau Maerol 2007
- ²³ Rheol 59(3)(b) Rheolau Etholiadau Maerol Cyfunol 2017
- ²⁴ Rheol 43(b) a (c) Rheolau Cynnal Refferenda (Lloegr) 2012, Rheolau Cynnal Refferenda (Cymru) 2008
- ²⁵ Rheol 42 Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012
- ²⁶ Rheol 43(4)(b) Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012
- ²⁷ Rheol 43(5)(d) Rheolau Refferenda Cynllunio Cymdogaeth 2012
- ²⁸ Rheoliad 91 Rheoliadau 2001
- ²⁹ Rheoliad 91(1)(b) Rheoliadau 2001
- ³⁰ Rheoliad 91(5) Rheoliadau 2001
- ³¹ Rheoliad 91(5) Rheoliadau 2001
- ³² Adran 36 (4) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ³³ Adran 36(5), RPA 1983
- ³⁴ Adran 36(4C), RPA 1983
- ³⁵ Adran 81(1), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ³⁶ Adran 81(1), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ³⁷ Adran 82, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ³⁸ Adran 89, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ³⁹ Paragraff 3 Atodlen 4 RPA 1983
- ⁴⁰ Adran 87A(2), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- ⁴¹ Adran 87A(1)(c) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007
- ⁴² Adran 87A(1)(c) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Erthygl 3(2) a (4) ac Atodlen 2 Paragraff 1(24) Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017
- ⁴³ Adran 128(1) ac (1A) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

⁴⁴ Adran 127, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

⁴⁵ Adran 129, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

⁴⁶ Adran 92 Deddf Llywodraeth Leol 1972

⁴⁷ Yn rhinwedd a2(2A) a (2B) LGA 1972 ac a107A(6) Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009